# IS-BWYLLGOR CYNLLUNIO (HAWLIAU TRAMWY CYHOEDDUS)

Hysbysiad o Benderfyniad – Cyfarfod o Bell, 20 Tachwedd, 2023.

Mae agenda'r Is-bwyllgor ar gael yma.

Mae recordiad y cyfarfod ar gael yma.

Yn Bresennol: Cynghorwyr G. Bruce, P. Drake, N.P. Hodges, N.C. Thomas a E. Williams.

Hefyd yn bresennol: Cynghorwyr E.J. Goodjohn, G. John (Aelod Cabinet dros Hamdden, Chwaraeon a Lles) a W.A. Hennessy.

| **Enw'r Llefarydd** | **Rhif Cais Cynllunio a Lleoliad** | **Rheswm dros Siarad** |
|---|---|---|
| D. Powell | Eitem Agenda 6 – Cais i Ddiwygio Map a Datganiad Swyddogol Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 A53(3)(c)(i) - O'r Brifordd Fabwysiedig yn Fferm Trebefered i Lwybr Cyhoeddus Rhif 3 yn Summerhouse Point, Llanilltud Fawr | Gwrthwynebydd y cais neu ei gynrychiolydd Unigolyn i gefnogi'r cais. |

Siaradodd y Cynghorwyr E.J. Goodjohn a G. John ar Eitem Agenda 6 – Cais i Ddiwygio Map a Datganiad Swyddogol Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 A53(3)(c)(i) - O'r Brifordd Fabwysiedig yn Fferm Trebefered i Lwybr Cyhoeddus Rhif 3 yn Summerhouse Point, Llanilltud Fawr – yn rhinwedd eu swydd fel Cynghorwyr Bro Morgannwg.

EITEM AGENDA 1. PENODI CADEIRYDD –

PENDERFYNWYD – Penodi’r Cynghorydd N.C. Thomas yn Gadeirydd yr Is-bwyllgor am weddill y flwyddyn ddinesig gyfredol.

EITEM AGENDA 2. PENODI IS-GADEIRYDD –

PENDERFYNWYD – Penodi'r Cynghorydd P. Drake yn Is-Gadeirydd yr Is-bwyllgor am weddill y flwyddyn ddinesig gyfredol.

EITEM AGENDA 4. COFNODION –

PENDERFYNWYD – Derbyn cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 6 Medi, 2023.

EITEM AGENDA 5. DATGANIADAU BUDDIANT –

Datganodd y Cynghorydd E. Williams fuddiant personol mewn perthynas ag Eitem Rhif 6 ar y Rhaglen. Natur y buddiant oedd bod y Cynghorydd E. Williams hefyd yn Aelod o Gyngor Tref Llanilltud Fawr ac wedi bod yn rhan o gyfarfodydd mewn perthynas â'r cais yn flaenorol. Dywedodd y Cynghorydd Williams y byddai'n edrych ar y cais o'r newydd.

Datganodd y Cynghorydd G. John, nad oedd yn Aelod o’r Is-bwyllgor Hawliau Tramwy Cyhoeddus, fuddiant personol yn Eitem Rhif 6 ar yr Agenda yn yr ystyr ei fod yn aelod o Gyngor Tref Llanilltud Fawr a’i fod yn siarad fel Cynghorydd Bro Morgannwg yn erbyn y cais.

EITEM AGENDA 6. CAIS I DDIWYGIO MAP A DATGANIAD SWYDDOGOL DEDDF BYWYD GWYLLT A CHEFN GWLAD 1981 A53(3)(C)(I) - O'R BRIFFORDD FABWYSIEDIG YN FFERM TREBEFERED I LWYBR CYHOEDDUS RHIF 3 YN SUMMERHOUSE POINT, LLANILLTUD FAWR (CL) –

PENDERFYNWYD – BOD Cyngor Bro Morgannwg yn gwneud Gorchymyn Diwygio Map Swyddogol mewn perthynas â’r cais.

Rheswm dros y penderfyniad

Gan ystyried cynnwys yr adroddiad a’r trafodaethau yn y cyfarfod.